# Gwybodaeth i Staff - Argyfwng Iechyd Meddwl Myfyrwyr

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

## Oes angen delio â'r broblem ar frys?

Ydych chi'n credu bod y myfyriwr:

- Mewn perygl o esgeulustod corfforol difrifol
- Mewn perygl o ladd ei hun
- O bosibl yn risg i eraill

**OES** →

### A yw'r myfyriwr yn fodlon derbyn

**YDY** →

1. **A yw'r myfyriwr wedi gweld gweithiwr proffesiynol ynghylch ei iechyd meddwl yn ddiweddar?** A ellir cysylltu â'r person / gwasanaeth hwn, neu drefnu apwyntiad dilynol brys?
2. **Cysylltwch â meddyg teulu** am apwyntiad brys. Meddygfa'r myfyriwr neu Feddygfa Bodnant: 01248 364492. **Gwasanaeth Meddygon Teulu y Tu Allan i Oriau Arferol:**0300 123 55 66.
3. **Yn ystod oriau swyddfa** cysylltwch â Lles Myfyrwyr: gwasanaethaulles@bangor.ac.uk / 01248 388520
4. **Tu allan i oriau arferol ffoniwch** GIG

**NAC** ↓

**NAC** ↓

### Allwch chi helpu?

Oes gennych chi'r amser a'r sgiliau?

**NA** →

A oes gan y myfyriwr Gynllun Diogelwch? Os oes, darllenwch y cynllun hwnnw gyda'r myfyriwr. Os nac oes, ymgynghorwch â'ch Rheolwr Llinell a/neu Swyddog Cymorth Cyntaf/Y Gwasanaeth Lles ar sail "angen gwybod"

Os yw'r sefyllfa'n gwaethygu a'ch bod yn pryderu am ddiogelwch / lles y myfyriwr, cysylltwch â **GIG 111 neu GIG 111 Opsiwn 2 yng Ngogledd Cymru. Mae'r CALL Helpline hefyd yn gweithredu gwasanaeth cyngor a chefnogaeth 24 awr y dydd drwy ffonio 0800 132737.**

Os yw'r myfyriwr yn byw mewn Neuadd Breswyl a'ch bod yn pryderu am eu diogelwch uniongyrchol neu'ch diogelwch eich hun cysylltwch â'r Tîm **Diogelwch ar 2795**.

Os yw'r myfyriwr **oddi ar y campws** a'ch bod yn pryderu am eu diogelwch, **ffoniwch 101, sef rhif yr Heddlu ar gyfer achosion nad ydynt yn rhai brys a chofrestru pryder am les**. Byddwch angen enw'r person, eu cyfeiriad hysbys diwethaf a'u rhif ffôn. Os

**GALL** ↓

### Gall cymorth priodol gynnwys:

- Gwrando ar bryderon y myfyriwr.
- Cynghori ar faterion ymarferol.
- Darparu gwybodaeth am opsiynau i'w cefnogi, e.e. Y Gwasanaeth Lles / Caplaniaeth / Undeb y Myfyrwyr / sefydliadau gwirfoddol lleol
- Cadw cofnod clir o'r prif faterion.
- Rhannu eich pryderon pan fo'n briodol

**Nodyn am gyfrinachedd:**

**Cyngor cychwynnol** - Gallwch geisio cyngor cychwynnol, heb dorri cyfrinachedd, trwy beidio â datgelu enw'r myfyriwr.

**Gofyn am ganiatâd** - Cyn ymgynghori â rhywun ynglŷn â lles myfyriwr, dylid gofyn am ganiatâd y myfyriwr os yn bosibl.

**Torri Cyfrinachedd** - Os ydych yn credu y dylid torri cyfrinachedd, holwch reolwr llinell yn gyntaf, lle bo'n bosibl.

**Gwrthod Caniatâd** - Os yw'r myfyriwr yn gwrthod caniatâd ond eich bod o'r farn bod eu diogelwch nhw neu ddiogelwch pobl eraill mewn perygl, mae angen i chi rannu'r wybodaeth hon fel 'dyletswydd gofal'.

**Rhannu Gwybodaeth -** Dylid rhannu gwybodaeth, yn ysgrifenedig ac ar lafar, ar sail 'angen gwybod'.